

## BPEC Cwrs Sylfaen Nwy (Rhaglen Dysgu a Reolir)



### Yn gwyno

P'un a ydych eisoes yn meddu ar gymwysterau plymio neu'n newydd i'r diwydiant nwy, bydd y cwrs hwn yn rhoi'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen arnoch i ddod yn Osodwr Nwy. Unwaith y byddwch wedi ennill Tystysgrif Sylfaen BPEC mewn Nwy, byddwch yn gallu ymgymryd â'r asesiadau ACS perthnasol.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter Llywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsgiau rhan-amser rhad ac am ddim gyda dysgu hyblyg a chyfleus sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw bresennol (yn amodol ar gymhwysedd).

### Gofynion Mynediad

Bydd angen i chi allu trefnu profiad ar y safle gyda Gosodwr Nwy cofrestredig (er mwyn ennill a chofnodi profiad ffurfiol) a/neu fod am naill ai newid gyrfa neu ddatblygu eich gyrfa bresennol yn y sector adeiladu.

Rhaid dangos eich bod yn gweithio ochr yn ochr â pheiriannydd cofrestredig sy'n ddiogel o ran nwy er mwyn cwblhau'r portffolio ar y safle. Bydd y portffolio hwn yn cael ei gwblhau y tu allan



## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

i amser yn y coleg.

Bydd angen i ymgeiswyr sydd heb hyfforddiant a phrofiad nwy feddu ar: gymhwyster cydnabyddedig yn y sector peirianeg gwasanaethau mecanyddol (e.e. plymio); o leiaf 2 TGAU (Gradd C) neu gyfwerth, yn ddelfrydol mewn Saesneg a Mathemateg; profiad perthnasol/priodol; asesiad mynediad.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd dyddiadau a lleoliadau'r cwrs yn cael eu trafod yn ystod y cais.

Cost y cwrs hwn os caiff ei gwblhau y tu allan i'r PLA fydd £4,385 yr ymgeisydd.

Mae dyddiad terfyn ar ôl 12 mis ar gyfer y Dystysgrif Sylfaen Nwy, felly bydd angen i chi gwblhau eich asesiadau ACS cyn y dyddiad hwn.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

